



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Sylfaenol 4 Ebrill 2009
Papur 2: Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Adroddiad y Prif Arholwr

Sylwadau Cyffredinol

Er ei bod hi'n siom i'r marcwyr fod ymgeiswyr llwyddiannus mor ddifrifol o brin, y llygedyn o oleuni a gynigwyd gan y marcwyr oedd nad oedd safon y sgrïptiau gwannaf cynddrwg, at ei gilydd, ag y buont. Efallai i'r e-weithdai cyfieithu helpu rhai darpar ymgeiswyr i sylweddoli nad oeddent yn barod eto i sefyll arholiadau'r Gymdeithas.

Cafwyd arwyddion niferus o afael annigonol yr ymgeiswyr ar Saesneg safonol. Y prif wendid, ymhlith yr ymgeiswyr y ddau gategori o aelodaeth, oedd blerwch a diofalwch wrth ddarllen: peidio â darllen y gwreiddiol yn ddigon gofalus, a hynny'n arwain at gamddeall a chamddehongli; a diffyg darllen dros y cyfieithiadau. Nid yw'r ddadl nad oedd digon o amser i wneud hyn yn dal dŵr. Un o'r elfennau y rhoir prawf arno mewn arholiad cyfieithu yw'r gallu i weithio'n gyflym a chywir dan bwysau amser.

Byddai hi wedi bod yn ddoethach i ymgeiswyr wirio'u cynigion cyntaf drwy droi at eiriaduron ac ymarfer eu synnwyr cyffredin wrth ddewis o blith y posibilïadau. Pur niferus, er enghraifft, oedd yr ymgeiswyr Sylfaenol a roes 'hibernate' am 'gaeafu', yn hytrach nag '(over)winter' neu 'spend the(ir) winter'.

Gwelwyd camgyfieithu diofal a mynych ar ystyr. Yn Narn 1 cafwyd 'evening' yn lle 'nightfall' am 'hwyrnos' a 'marsh/es' yn hytrach na 'salt-marsh/es' wrth gyfieithu 'morfa/morfeydd'. Methodd nifer â chyfieithu 'o du'r môr' yn gywir (cafwyd 'from the side of the sea' sawl tro).

Tipyn o syndod oedd i lawer ymgeisydd gael trafferth wrth geisio trosi'r ymadrodd 'criw'r Wyddfa'. Yr oedd yn amlwg bod rhai'n gwbl anghyfarwydd â cherdd T.H. Parry-Williams y lled-gyfeirir ati. 'Snowdon and (its) adjacent/surrounding peaks'?

Rhoes nifer o ymgeiswyr 'rarely' yn hytrach na 'scarcely' wrth drosi'r ymadrodd 'prin fod golygfa', a methodd amryw â sylweddoli mai 'maritime' yn hytrach na 'coastal' yw'r cyfieithiad cywir o 'arforol'.

Mewn sawl achos, mae'n anodd bod yn sicr ai diffyg ymglywed ag idiomau'r Saesneg neu gamddealltwriaeth a oedd wrth wraidd y cloffni. Cafodd amryw o'r ymgeiswyr beth trafferth, er enghraifft, gyda'r ferf 'pysuro' yn 'tywyllwch y nos

sy'n prysuro o'r dwyrain'. Er y cafwyd cyfieithiadau cywir fel 'fast approaching', cafwyd hefyd gamddewis geiriau fel 'accelerating' ac 'encroaches'.

Syndod oedd gweld ambell un yn rhoi 'the view of... the corner' am 'golygfa.... o'r gornel' lle byddai darllen gofalus, heb sôn am synnwyr cyffredin, wedi dangos yn glir mai 'the view from the corner' a olygid.

Parodd enwau lleoedd a mynyddoedd gryn drafferth i lawer. Yr oedd rhai ymgeiswyr yn ansicr sut y dylid cyfieithu 'Pen Llŷn', ac eraill yn bodloni ar beidio â chyfieithu'r enw o gwbl. Cafwyd anhawster gyda'r enwau 'Moelwynion', 'Moelfre' a 'Rhinogydd' am reswm gwahanol, sef y diffyg enwau Saesneg safonol arnynt. Defnyddiodd rhai ymgeiswyr yr enwau 'Moelwyns' a 'Rhinogs' tra bo eraill wedi atgynhyrchu'r enwau Cymraeg. Ceisiodd eraill osgoi'r broblem drwy ddefnyddio ymadroddion fel 'the Moelwynion mountain range' a 'the Rhinog mountains'. Cafwyd 'the Moelfre' gan rai.

Parodd yr ymadrodd 'o ran' lawer o anhawster: methodd rhai ymgeiswyr â sylweddoli bod rhaid defnyddio gwahanol ymadroddion Saesneg, yn ôl y cyddestun, i'w gyfieithu'n idiomatig. Ymhlith yr ymadroddion eraill a barodd drafferth i'r mwyafrif yr oedd '(c)yforiog o rywogaethau'. Cafwyd 'laden with', 'are overflowing with', 'heaving with', 'teeming with'. Dim ond un ymgeisydd a ddefnyddiodd 'abound in'.

Cafwyd sawl achos arall o gyfieithu gor-lythrennol, e.e. 'across the world' yn hytrach na 'global(ly)' ac 'on top of all this' yn hytrach na ('moreover/furthermore/in addition').

Cyfieithiad a barodd syndod mawr oedd 'To enjoy the twitter of so many larks is chicken soup for the soul'. O chwilio ar y we, cafwyd ei fod yn ymadrodd Americanaidd derbyniol (o darddiad Iddewig?), ond go brin y byddai'r awdur o Gymro wedi'i ddeall, chwaethach ei ddefnyddio. O leiaf fe ddysgodd wers i'r marcwyr!

Yn Narn 2, parodd y gair 'cydreddeg' gryn anhawster i nifer. Cafwyd 'runs concurrently', 'is concurrent with', 'concurr with', 'runs alongside', 'runs in conjunction with', 'runs in parallel with' ac 'is aligned with' yn gyfieithiadau. Un ymgeisydd yn unig a ddefnyddiodd 'accords with'.

Maen tramgwydd arall oedd yr ymadrodd 'Rhaid sicrhau, felly, fod...', a gyfieithwyd yn llythrennol neu'n lled-lythrennol gan amryw (e.e. 'It must be ensured, therefore, that...'). Ac fe ddefnyddiodd pob ymgeisydd y gair 'situation' yn hytrach na 'position' i gyfieithu 'sefyllfa'.

Cafwyd cryn anhawster wrth droi'r cymal agoriadol 'Er mor ddefnyddiol yw'r gronfa ddata'. Ni welodd neb mai 'Useful as the database is' fyddai'r ymadrodd hwylusaf. Camargraff a roddwyd gan eraill wrth iddynt ddweud 'However useful...'.

Cafodd nifer o ymgeiswyr anhawster wrth ddewis gair addas i gyfleu 'mawrygu'. Cynigiwyd 'glorify', 'applaud' a 'venerating' ond cywirach fyddai 'celebrating' ac

'extolling'. Cafwyd rhai achosion o gamddehongli cysrawen ac ystyr, e.e 'circumstances and new opportunities' yn hytrach na 'new circumstances and opportunities'.

Cafodd rhai ymgeiswyr drafferth wrth gyfieithu'r ymadrodd 'Dydy pob cyhoeddusrwydd ddim o angenrheidrwydd yn dda'. Camgyfieithiad nodweddiadol oedd 'All publicity is not necessarily good'.

Enghreifftiau o Gyfieithu Da

Yn Narn 1: '...bathed in pink by the last rays of daylight.'

Yn Narn 2: 'Marketing is integral to all Eisteddfod activity and conforms on every level with the central vision — to promote the Welsh language by holding an annual festival and celebrating local and national creativity' ac 'Everybody has their own take on what the festival is...'

Prif Arholwr (o'r Gymraeg i'r Saesneg) Mehefin 2009